

Trosolwg o'r pwnc

Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE

Mae'r ddogfen hon ar gyfer ymgyrchwyr sydd am wybod am y rheolau ynghylch ymgyrchu yn y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE a sut i gofrestru fel ymgyrchydd refferendwm

Diweddarwyd 5 Chwefror 2016

Cynnwys:

Ymgyrchwyr mewn refferenda

Cofrestru fel ymgyrchydd

Ymgyrchwyr arweiniol

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoliadol penodol. Rydym yn defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

Ein dull gorfodi

Mae'r Comisiwn yn rheoleiddio cyllid a gwariant gwleidyddol mewn modd sy'n effeithiol, cymesur a theg. Rydym wedi ymrwmo i roi dealltwriaeth glir o'r rhwymedigaethau rheoleiddiol i'r rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio trwy ein canllawiau a'n gwasanaeth cyngor. Os nad ydych yn siŵr o sut mae'r rheolau hyn yn berthnasol i chi, ffoniwch ni am gyngor. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Rydym yn defnyddio cyngor a chanllawiau yn rhagweithiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Rydym hefyd yn cymryd camau gorfodi, gan ddefnyddio ein pwerau ymchwiliol a sancsiynau, lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn cyflawni ein nodau ac amcanion gorfodi.

Os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoliadol, gallwch chi neu eich sefydliad fod yn destun sancsiynau sifil neu droseddol. Mae mwy o wybodaeth am ddull gorfodi'r Comisiwn yn

www.electoralcommission.org.uk/cymru/our-work/roles-and-responsibilities/our-role-as-regulator-of-political-party-finances

2

Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE

Mae'r ddogfen hon yn esbonio:

Y rheolau ar ymgyrchu yn y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd a sut i gofrestru fel ymgyrchydd.

Mae'r ddogfen yn cwmpasu:

- Ymgyrchwyr yn y refferendwm
- Cofrestru fel ymgyrchydd
- Rolau a chyfrifoldebau ymgyrchwyr cofrestredig
- Defnyddio argraffnodau
- Grwpiau ymgyrchu dynodedig

Dogfennau cysylltiedig:

- [Adrodd cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)
- [Rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)
- [Benthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)
- [Proses ddynodi ar gyfer Refferendwm yr UE](#)
- [Amserlen a dyddiadau cau adrodd ar gyfer Refferendwm yr UE](#)

Papurau arbenigol:

- [Rhannu gwariant](#)

Crynodeb

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015 (y Ddeddf), ceir rheolau ynghylch yr hyn y caiff ymgyrchwyr refferendwm ei wneud yn y cyfnod cyn refferenda.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi amlinelliad i chi o'r wybodaeth allweddol am y rheolau ar ymgyrchu a sut i gofrestru fel ymgyrchydd.

4

Cyflwyniad

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), mae gennym gyfrifoldebau statudol penodol mewn perthynas â'r refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE.

Ein hamcanion ar gyfer y refferendwm yw:

- y dylai gael ei chynnal yn dda ac arwain at ganlyniadau a dderbynnir
- y dylai fod uniondeb a thryloywder o ran arian a gwariant ar ymgyrchu

Mae'r canllawiau'n adlewyrchu'r rheolau yn PPERA fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015. Mae'r Ddeddf yn darparu y gall y llywodraeth wneud newidiadau i'r rheolau o fewn rheoliadau.



Nid yw'r Ddeddf yn pennu hyd y cyfnod dynodi, hyd cyfnod y refferendwm na dyddiadau dechrau'r cyfnodau hynny. Rhaid i'r llywodraeth lunio rheoliadau sy'n amlinellu hyd a dyddiad dechrau cyfnod y refferendwm. Byddwn yn diweddarau ein [gwefan](#) pan gaiff y rheoliadau hyn eu llunio.

Ymgyrchwyr mewn refferenda

Rydym yn annog cyfranogiad gweithredol gan ymgyrchwyr fel rhan o ddemocratiaeth iach. Yn ystod y refferendwm, gall unigolion neu sefydliadau ymgyrchu dros ganlyniad penodol. Bydd yr ymgyrchwyr hyn yn destun rheolau penodol ar wariant a rhoddion.

Trefnu ymgyrch

Mae rhagor o wybodaeth am drefnu ymgyrch ar gael yn [Y pethau 'i'w gwneud' ac i 'beidio â'u gwneud' yn ystod ymgyrch refferendwm](#). Mae'r ddogfen hon hefyd yn cynnwys awgrymiadau o ran arfer da i'ch helpu gyda'ch ymgyrch.

Pryd mae angen i chi gofrestru â ni

Ni chewch wario mwy na £10,000 ar ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm, oni bai eich bod wedi cofrestru â ni i fod yn 'ymgyrchydd cofrestredig' cyn gwneud hynny.

Os na wnewch gofrestru, neu os nad ydych yn gymwys i gofrestru, ni allwch wario mwy na £10,000 ar ymgyrchu yn ystod cyfnod a reoleiddir y refferendwm.

Gallwch wneud cais i gofrestru fel ymgyrchydd o 1 Chwefror 2016.

Fel rhan o'ch cais, rhaid i chi roi manylion penodol amdanoch eich hun neu'ch sefydliad. Rhaid i chi hefyd ddweud wrthym dros ba ochr o'r ddadl rydych yn ymgyrchu.

Gallwch gofrestru fel ymgyrchydd naill ai [ar-lein](#) neu drwy gwblhau ffurflen [EUR1](#).

Mae angen i ymgyrchwyr gwleidyddol cofrestredig neu ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau gofrestru ar wahân fel ymgyrchwyr ar gyfer y refferendwm.

6

Ni fyddwn yn cofrestru ymgyrchydd sydd ag enw sy'n sarhaus neu'n anweddus. Efallai y byddwn yn penderfynu bod enw'n sarhaus neu'n anweddus os yw:



- yn cynnwys iaith neu derminoleg sarhaus
- yn cysylltu rhywbeth y derbynnir yn gyffredinol ei fod yn sarhaus â grŵp penodol o bobl

Gofyniad cyfreithiol ar gyfer cymdeithasau anghorfforedig yn unig yw hwn. Bydd pleidiau gwleidyddol sydd wedi'u cofrestru yn y DU eisoes wedi bodloni'r prawf hwn wrth gofrestru â ni fel plaid.

Manteision a chyfrifoldebau cofrestru â ni

Bydd cofrestru fel ymgyrchydd yn rhoi'r canlynol i chi:

- terfyn gwario dros £10,000
- cael gweld y gofrestr etholiadol er mwyn helpu eich ymgyrch o fewn y DU a Gibraltar
- Yr hawl i benodi asiantiaid (h.y. cynrychiolwyr) i fod yn bresennol mewn sesiynau agor pleidleisiau post, gorsafoedd pleidleisio a'r broses o gyfrif pleidleisiau
- cyfrifoldeb am gofnodi rhoddion, benthyciadau a gwariant penodol sy'n gysylltiedig â'r refferendwm, ac adrodd arnynt

Am ragor o wybodaeth am derfynau gwario, gweler:

- [Gwariant ar gyfer Ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)

Pwy a all gofrestru fel ymgyrchydd?

Dim ond y mathau canlynol o unigolion neu sefydliadau a all gofrestru fel ymgyrchwyr:

- unigolyn sy'n preswyllo yn y DU neu wedi'i gofrestru ar un o gofrestrau etholiadol y DU
- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar gofrestr etholiadol Gibraltar
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru yn y DU neu blaid wleidyddol a sefydlwyd yn Gibraltar
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn yr UE ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn Gibraltar ac sy'n gwmni corfforedig yn yr UE ac sy'n cynnal busnes yn Gibraltar
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU neu Gibraltar
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU neu Gibraltar
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn Gibraltar ac sy'n cynnal busnes yn Gibraltar
- cymdeithas lesiant, diwydiannol neu ddarbodus sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i busnes neu weithgareddau eraill yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn Gibraltar ac sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i busnes neu weithgareddau eraill yn Gibraltar
- corff sydd wedi ei gorffori gan Siarter Frenhinol

I gael gwybodaeth am Bleidiau Gwleidyddol Gibraltar gweler:

- [Gibraltar a Refferendwm yr UE](#)

I gael mwy o wybodaeth am lywodraethau neu gyrff cyhoeddus sy'n ymgyrchu yn y refferendwm, gweler:

- [Cyrff cyhoeddus a deunydd Refferendwm yr UE](#)

8

- sefydliad corfforedig elusennol yn y DU
- partneriaeth Albanaid sy'n cynnal busnes yn y DU

Elusennau

Gall elusennau gofrestru fel ymgyrchwyr refferendwm os ydynt yn gymwys i gofrestru a bydd y rheolau ar y refferendwm yn berthnasol yn yr un modd i elusennau ag y maent i ymgyrchwyr eraill. Fodd bynnag mae'n rhaid i ymgyrchu refferendwm, neu weithgarwch gwleidyddol sy'n cael ei wneud gan elusen yng nghyd-destun cyflenwi ei ddibenion elusennol. Cyn i chi benderfynu cofrestru fel ymgyrchydd dylech ddarllen y canllawiau ar ymgyrchu a gweithgarwch gwleidyddol a gyhoeddir gan eich rheoleiddiwr elusen i sicrhau eich bod chi'n ymgyrchu yn y refferendwm yn unol â chyfraith elusen.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'ch rheoleiddiwr elusennau

- [Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr](#)

Sut mae cofrestru fel ymgyrchydd?

Os hoffech gofrestru, gallwch wneud cais ar-lein drwy fynd i [CPE Ar-lein](#). Fel arall, gallwch gofrestru â ni drwy gwblhau [Ffurflen EUR1](#) a'i phostio atom. Gallwn hefyd dderbyn copi wedi'i sganio o'r ffurflen drwy [e-bost](#).

Bydd y broses gofrestru fel arfer yn cymryd pum niwrnod gwaith. Byddwn yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gennych ac yn cadarnhau yn ysgrifenedig pan fydd eich cofrestriad mewn grym.

Rolau a chyfrifoldebau ymgyrchwyr cofrestredig

Unigolyn cyfrifol

Rhaid bod gan bob ymgyrchydd cofrestredig 'unigolyn cyfrifol'. Yr unigolyn hwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod cyllid yr ymgyrchydd yn cydymffurfio â'r rheolau ar wariant, rhoddion a benthyciadau.

Os bydd plaid wleidyddol (oni bai ei bod yn blaid lai) yn cofrestru fel ymgyrchydd, ei thrysorydd cofrestredig fydd ei 'hunigolyn cyfrifol'. Bydd ymgyrchwyr cofrestredig unigol yn gweithredu fel unigolion cyfrifol ar gyfer eu hymgyrchoedd eu hunain. Bydd angen i bob ymgyrchydd arall gofrestru unigolyn cyfrifol â ni.

Ni allwch weithredu fel unigolyn cyfrifol ar gyfer mwy nag un ymgyrchydd.

Asiantiaid yn y refferendwm

Bydd y rheolau ynghylch penodi asiantiaid mewn refferendwm wedi'u cynnwys mewn rheoliadau a gyhoeddir gan y llywodraeth. Mae'r wybodaeth isod yn seiliedig ar y rheolau ymddygiad drafft a gyhoeddwyd gan y llywodraeth. Gall y rheolau hyn newid. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn rhoi gwybod i ymgyrchwyr ar ein [gwefan](#).

Asiantiaid refferendwm

Gall asiantiaid refferendwm benodi pobl i fod yn bresennol mewn sesiynau agor pleidleisiau post, gorsafoedd pleidleisio a'r broses o gyfrif pleidleisiau. Ceir dyddiad cau ar gyfer penodi asiantiaid refferendwm. Caiff y dyddiadau perthnasol eu

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y ddogfen hon:

- [Gwariant ar gyfer Ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)

 Pwysig

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y ddogfen hon:

- [Amserlen a dyddiadau cau adrodd ar gyfer Refferendwm yr UE](#)

10

cyhoeddi yn y canllawiau ar yr amserlen a'r dyddiadau cau adrodd ar gyfer Refferendwm yr UE.

Asiantiaid pleidleisio drwy'r post

Gall asiantiaid pleidleisio drwy'r post arsylwi ar y broses o agor pleidleisiau post a ddychwelwyd.

Asiantiaid pleidleisio

Gall asiantiaid pleidleisio gael mynediad i orsafoedd pleidleisio er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau pleidleisio'n cael eu dilyn yn gywir.

Asiantiaid cyfrif

Bydd asiantiaid cyfrif yn arsylwi ar y broses gyfrif (ar lefel leol) ar ran ymgyrchydd er mwyn sicrhau bod y broses gyfrif yn cael ei chynnal yn briodol a bod y pleidleisiau'n cael eu cyfrif yn gywir.

Cyllid a gwariant refferendwm

Adrodd cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE

Yn y cyfnod cyn y refferendwm, rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig (heblaw am bleidiau gwleidyddol cofrestredig ond gan gynnwys pleidiau llai) roi gwybod i ni am roddion a benthyciadau penodol. Gelwir hyn yn adrodd cyn y bleidlais ac mae mwy o wybodaeth am y rheolau ar gael [yma](#).

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig gyflwyno adroddiadau cyn y bleidlais erbyn dyddiadau cau penodol, gan amlinellu pa roddion y maent wedi'u cael a pha fenthyciadau y maent wedi'u trefnu sydd dros £7,500 ar neu ar ôl 1 Chwefror 2016. Mae hyn ynn cynnwys benthyciadau y maent wedi'u trefnu cyn i'r ymgyrchydd gofrestru.

Nid yw gwariant ar ymgyrchu ar gyfer refferendwm cyn dechrau cyfnod y refferendwm yn cyfrif tuag at eich terfyn gwario.

Bydd y dyddiad pan fydd y gofynion adrodd yn gymwys, dechrau cyfnod y refferendwm, a'r dyddiadau cau adrodd yn cael eu hamlinellu mewn rheoliadau a lunnir gan y llywodraeth.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y dogfennau hyn:

- [Adrodd cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)
- [Gwariant ar gyfer Ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)
- [Rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)
- [Benthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)

Byddwn yn rhoi gwybod i ymgyrchwyr ar ein [gwefan](#) pan fydd hyn yn digwydd. Dylech gadw cofnodion cywir o'r rhoddion y byddwch yn eu defnyddio, neu'n bwriadu eu defnyddio, ar ymgyrchu ar gyfer refferendwm (boed hynny cyn neu yn ystod cyfnod swyddogol y refferendwm) er mwyn sicrhau y gallwch gydymffurfio â'r gofyniad adrodd hwn.

Pleidiau gwleidyddol

Nid oes angen i bleidiau gwleidyddol sydd wedi'u cofrestru yn y DU adrodd cyn y bleidlais. Y rheswm am hyn yw ei bod yn rhaid i bleidiau sy'n cofrestru fel ymgyrchwyr barhau i adrodd ar roddion a benthyciadau i ni bob chwarter, yn ôl yr arfer.

Ni all pleidiau gwleidyddol sydd wedi'u cofrestru yn y DU na phleidiau a sefydlwyd yn Gibraltar nad ydynt wedi'u cofrestru yn y DU wneud rhoddion i ymgyrchwyr cofrestredig eraill, ac eithrio grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig.

Gall pleidiau gwleidyddol sydd wedi'u lleoli yn Gibraltar gofrestru o dan sawl categori o ymgyrchwyr. Ceir rhagor o wybodaeth yn ein [taflen ffeithiau ar Gibraltar a Refferendwm yr UE](#).

Adrodd ar ôl y refferendwm

Rhaid i bob ymgyrchydd cofrestredig, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol, adrodd ar eu gwariant ymgyrchu ar ôl y refferendwm. Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig (ac eithrio pleidiau gwleidyddol) hefyd gynnwys manylion am roddion a benthyciadau penodol yn eu ffurflenni gwariant ymgyrchu. Byddwn yn cyhoeddi'r ffurflenni ar ein [gwefan](#).

Cyfrifoldebau ymgyrchwyr cofrestredig

Ceir rheolau ynghylch gwirio rhoddion, eu derbyn ac adrodd arnynt, cyn y refferendwm. Mae cyfnod ymgyrchu ffurfiol a elwir yn gyfnod y refferendwm pryd fydd y rheolau yn berthnasol. Bydd y cyfnod hyn yn cael ei amlinellu mewn rheoliadau. Ar ôl i'r dyddiadau gael eu cyhoeddi, byddwn yn rhoi amserlen ar ein [gwefan](#).

12

Gwariant ar ymgyrchu ar gyfer refferendwm

O dan y ddeddfwriaeth, rhaid i chi ddilyn y rheolau a'r terfynau ynghylch gwariant ar ymgyrchu yn y cyfnod cyn y refferendwm. Rhaid i chi hefyd gofnodi eich gwariant ac adrodd arno i ni.

Mae gwariant ar y refferendwm yn golygu gwariant ar fathau penodol o eitemau a gweithgareddau at ddibenion eich ymgyrch.

Rhoddion a benthyciadau ymgyrchu

Ceir rheolau ynghylch derbyn rhoddion neu fenthyciadau ar gyfer gwariant ar y refferendwm.

Mae rhoddion yn cynnwys arian, nwyddau, eiddo neu wasanaethau a roddir i ymgyrchydd am ddim neu ar delerau anfasnachol neu nawdd.

Mae benthyciadau'n cynnwys gwarannau, gwarantau a chyfleusterau credyd megis cardiau credyd a gorddrafftiau.

Dim ond o ffynonellau penodol, sy'n bennaf wedi'u lleoli yn y DU a Gibraltar, y gallwch dderbyn rhoddion neu drefnu benthyciadau sy'n werth mwy na £500 ar gyfer gwariant ar y refferendwm. Galwn y rhain yn 'ffynonellau a ganiateir'.

Cyn i chi dderbyn rhodd, rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ffynhonnell yn un a ganiateir. Os na fyddwch wedi dychwelyd rhodd o fewn 30 diwrnod i'w chael, tybir eich bod wedi'i derbyn, felly bydd angen i chi gymryd y camau hyn o fewn y cyfnod hwnnw. Dylech hefyd gymryd y camau hyn cyn derbyn unrhyw rodd a gafwyd cyn i chi gofrestru fel ymgyrchydd.

Os nad yw'r rhoddwr yn un a ganiateir, rhaid i chi ddychwelyd y rhodd o fewn yr un cyfnod o 30 diwrnod.

Ni chewch drefnu benthyciad â benthyciwr nas caniateir, felly dylid sicrhau ymlaen llaw bod y benthyciwr yn un a ganiateir.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y ddogfen hon:

- [Gwariant ar gyfer Ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)



I gael rhagor o wybodaeth, gweler y ddogfen hon:

- [Rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)

Defnyddio argraffnodau

Beth yw argraffnod?

Ychwanegir argraffnod at ddeunydd refferendwm a gyhoeddir yn ystod cyfnod y refferendwm er mwyn dangos pwy sy'n gyfrifol am ei lunio. Mae hyn yn helpu i sicrhau tryloywder ynglŷn â phwy sy'n ymgyrchu mewn refferendwm.

Beth y mae'n rhaid i chi ei gynnwys?

Ar ddeunydd print megis taflenni a phosteri, mae'n rhaid i chi gynnwys enw a chyfeiriad y canlynol:

- yr argraffwr,
- yr hyrwyddwr

Yr hyrwyddwr yw'r sawl sydd wedi achosi i'r deunydd gael ei argraffu. Os ydych wedi cofrestru â ni fel ymgyrchydd refferendwm, gall hwn fod y sawl y rhoddwyd gwybod i ni mai ef oedd yr 'unigolyn cyfrifol', neu rywun a awdurdodwyd ganddynt i fynd i wariant.

Os yw'r hyrwyddwr yn gweithredu ar ran unigolyn neu sefydliad, rhaid i chi hefyd gynnwys enw a chyfeiriad yr unigolyn neu'r sefydliad.

Gallwch ddefnyddio cyfeiriadau cartref neu swyddfa.

Mae'n drosedd peidio â chynnwys argraffnod ar ddeunydd ymgyrchu a argreffir sydd ar gael i'r cyhoedd yn ystod cyfnod y refferendwm.

Enghraifft o argraffnod

Dylai argraffnod safonol ar ddeunydd ymgyrchu edrych fel a ganlyn:

Ceir cyfyngiadau ar y wybodaeth y gall cyrff cyhoeddus ei rhannu yn ystod refferendwm. Gweler y ddogfen hon:

- [Cyrff cyhoeddus a deunydd Refferendwm yr UE](#)

14

Argraffwyd gan Argraffwyr T Jones Cyf., 22 Heol y Ddinas, Abertawe. Hyrwyddwyd gan G Edwards, ar ran y Grŵp Ymgyrchu, o 110 Stryd Fawr, Caerdydd.

Ble rydych yn gosod yr argraffnod?

Os yw'r deunydd yn ddogfen un ochr – megis poster ffenestr – neu lle mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth ar un ochr, mae'n rhaid i chi roi'r argraffnod ar wyneb y ddogfen.

Os yw'r ddogfen yn amlochrog, mae'n rhaid i chi ei roi ar y dudalen gyntaf neu'r dudalen olaf.

Os yw'r deunydd mewn papur newydd neu gyfnodolyn, mae'n rhaid i enw a chyfeiriad argraffydd y papur newydd neu'r cyfnodolyn ymddangos ar y dudalen gyntaf neu'r dudalen olaf, ac mae'n rhaid i enw a chyfeiriad yr hyrwyddwr (ac unrhyw un y mae'r deunydd yn cael ei gyhoeddi ar ei ran, os nad yr hyrwyddwr) ymddangos yn yr hysbyseb.

Gwefannau a deunydd electronig arall

Fel arfer da, rydym yn argymhell eich bod yn gosod argraffnod ar ddeunydd electronig, megis gwefannau a negeseuon e-bost. Dylai'r argraffnod gynnwys enw a chyfeiriad yr hyrwyddwr a'r sefydliad y cynhyrchwyd yr argraffnod ar ei ran. Dylech gynnwys argraffnod oni bai fod maint neu fformat y deunydd ymgyrchu yn golygu na fyddai'r argraffnod yn ddarllenadwy.

Lle nad yw'n rhesymol ymarferol cynnwys argraffnod llawn ar y deunydd ymgyrchu, dylech ystyried sut y gellid darparu ffordd amgen o gysylltu'r deunydd â chi.

Grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig

Ymgyrchydd arweiniol dynodedig yw'r grŵp ymgyrchu arweiniol ar gyfer un ochr o'r ddadl. Y grŵp hwn fydd y grŵp ymgyrchu arweiniol ar ran y rhai sy'n ymgyrchu dros y canlyniad hwnnw

O dan PPERA byddwn yn dynodi ymgyrchydd arweiniol ar gyfer pob canlyniad yn y refferendwm. Mae PPERA yn cynnwys prawf statudol y mae'n rhaid i ni ei ddefnyddio wrth asesu ceisiadau i fod yn ymgyrchydd arweiniol. Gall ymgyrchwyr cofrestredig wneud cais i ni am gael eu dynodi'n ymgyrchydd arweiniol.

Os caiff grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig eu penodi ar gyfer y ddau ganlyniad, gallant fanteisio ar derfyn gwario uwch, sef £7 miliwn, anfon gwybodaeth at bleidleiswyr am ddim, darllediadau ymgyrchu ar gyfer y refferendwm, defnyddio ystafelloedd cyhoeddus penodol am ddim a grant gennym ni.

Os caiff grŵp ymgyrchu arweiniol ei benodi ar un ochr o'r refferendwm yn unig, bydd gan yr ymgyrchydd hwnnw derfyn gwario uwch, sef £7 miliwn, gall anfon gwybodaeth at bleidleiswyr a defnyddio ystafelloedd cyhoeddus penodol am ddim, ond ni fydd yn cael y grant gwerth hyd at £600,000 na'r darllediadau ymgyrchu ar gyfer y refferendwm.

16

Y broses ddynodi

Caiff yr amserlen ddynodi ei hamlinellu mewn rheoliadau. Ar ôl i'r dyddiadau gael eu cyhoeddi, byddwn yn rhoi amserlen ar ein [gwefan](#).

Os mai dim ond un ymgeisydd sydd ar gyfer canlyniad, byddwn yn dynodi rhywun heblaw nad ydym yn fodlon ei fod yn cynrychioli'r rhai sy'n ymgyrchu dros y canlyniad hwnnw yn ddigonol. Os oes dau neu fwy o ymgeiswyr, byddwn yn penodi'r ymgeisydd sydd, yn ein barn ni, yn cynrychioli orau y rhai sy'n ymgyrchu dros y canlyniad hwnnw.

Os byddwn o'r farn nad oes yr un ymgeisydd yn cynrychioli'r rhai sy'n ymgyrchu dros ganlyniad yn ddigonol, ni allwn ddynodi grŵp ymgyrchu arweiniol ar gyfer y canlyniad hwnnw.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler:

- [Proses ddynodi ar gyfer Refferendwm yr UE](#)

Sut y gallwn helpu

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau a awgrymwyd gennym yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein holl ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- **Cymru:** 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- **Lloegr:** 0333 103 1928
pef@electoralcommission.org.uk
- **Yr Alban:** 0333 103 1928
infoscotland@electoralcommission.org.uk
- **Gogledd Iwerddon:** 0333 103 1928
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i www.comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau – e-bostiwch ni yn: pef@electoralcommission.org.uk
